OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1081 (Cy. 256)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Powys (Trefniadau Etholiadol) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a roddodd adroddiad ym mis Mawrth 2019 ar ei adolygiad o drefniadau etholiadol Sir Powys. Roedd Adroddiad y Comisiwn yn cynnig lleihau nifer y wardiau etholiadol o 73 i 60, a lleihau nifer y cynghorwyr o 73 i 68.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gweithredu argymhellion y Comisiwn, gydag addasiadau.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn yn diddymu'r trefniadau etholiadol presennol ar gyfer Sir Powys ac yn cyflwyno'r Atodlen sy'n nodi'r trefniadau etholiadol newydd ar gyfer Sir Powys.

Mae erthygl 4 yn gwneud newidiadau i'r ffiniau rhwng wardiau cymunedol Llanerchyddol, Gungrog a'r Castell yng nghymuned y Trallwng. Mae erthygl 5 yn nodi nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros y wardiau hynny.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2021 No. 1081 (W. 256)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The County of Powys (Electoral Arrangements) Order 2021

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order implements the recommendations of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission"), which reported in March 2019 on its review of the electoral arrangements for the County of Powys. The Commission's Report proposed a reduction in the number of electoral wards from 73 to 60, and a reduction in the number of councillors from 73 to 68.

This Order implements the Commission's recommendations, with modifications.

Article 3 of this Order abolishes the existing electoral arrangements for the County of Powys and introduces the Schedule, which sets out the new electoral arrangements for the County of Powys.

Article 4 makes changes to the boundaries between the community wards of Llanerchyddol, Gungrog and Castle within the community of Welshpool. Article 5 sets out the number of members to be elected for those wards.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with this Order.

Mae printiau o'r mapiau a labelwyd "1" a "2" y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol) a chyda Chyngor Sir Powys. Mae'r printiau sydd wedi eu hadneuo gyda Chyngor Sir Powys yn agored i gael eu harchwilio gan unrhyw un y bydd darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn effeithio arnynt.

Prints of the maps labelled "1" and "2" to which this Order relates are deposited in the offices of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Local Government Democracy Division), and with Powys County Council. Prints deposited with Powys County Council are open to inspection by anyone affected by the provisions of this Order.

# 2021 Rhif 1081 (Cy. 256)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Sir Powys (Trefniadau Etholiadol) 2021

*Gwnaed* *22 Medi 2021*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(**1**), yn unol ag adran 36(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013(**2**) ("Deddf 2013"), wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru adroddiad dyddiedig Mawrth 2019 yn cynnwys ei argymhellion ar gyfer newid a manylion ei adolygiad o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Powys.

Mae Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried y materion y cyfeirir atynt ac a nodir yn adran 37(2)(a) ac (c) o Ddeddf 2013, wedi penderfynu rhoi effaith i'r argymhellion hynny gydag addasiadau.

Yn unol ag adran 37(3) o Ddeddf 2013, mae mwy na 6 wythnos wedi mynd heibio ers i'r argymhellion hynny gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer eu pwerau a roddir gan adran 37(1) o Ddeddf 2013.

(**1**) Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ("Deddf 1972") ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. Mae Deddf 2013 yn ailenwi'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2).

(**2**) 2013 dccc 4.



# 2021 No. 1081 (W. 256)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The County of Powys (Electoral Arrangements) Order 2021

*Made* *22 September 2021*

*Coming into force in accordance with article 1(2) and (3)*

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales(**1**) has, in accordance with section 36(5) of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013(**2**) ("the 2013 Act"), submitted to the Welsh Ministers a report dated March 2019 containing its recommendations for change and the details of its review of the electoral arrangements for the County of Powys.

The Welsh Ministers have, after consideration of the matters referred to and set out in section 37(2)(a) and (c) of the 2013 Act, decided to give effect to those recommendations with modifications.

In accordance with section 37(3) of the 2013 Act, more than 6 weeks have elapsed since those recommendations were submitted to the Welsh Ministers.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of their powers conferred by section 37(1) of the 2013 Act.

(**1**) The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of, and Schedule 8 to, the Local Government Act 1972 (c. 70) ("the 1972 Act"). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) ("the 2013 Act"). The 2013 Act re-names the Local Government Boundary Commission for Wales as the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (see section 2).

(**2**) 2013 anaw 4.

## Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Sir Powys (Trefniadau Etholiadol) 2021.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2021.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022(**1**).

## Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**2**);

ystyr "ward etholiadol" *("electoral ward*") yw unrhyw ardal yr etholir aelodau drosti i Gyngor Sir Powys;

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn golygu un o'r 2 fap a farciwyd "Map ar gyfer Gorchymyn Sir Powys (Trefniadau Etholiadol) 2021" a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau ac a labelwyd "1" a "2", ac mae cyfeiriad at fap â rhif yn gyfeiriad at y map sy'n dwyn y rhif hwnnw;

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd;

mae i eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn yr un ystyr ag sydd iddynt yn Rhan 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac eithrio i'r graddau yr ymddengys bwriad i'r gwrthwyneb.

## Trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Powys

**3.**—(1) Mae wardiau etholiadol Sir Powys, fel y maent yn bodoli yn union cyn y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2022, wedi eu diddymu.

(2) Mae Sir Powys wedi ei rhannu'n 60 o wardiau etholiadol a phob un ohonynt yn dwyn yr enw Saesneg a restrir yng ngholofn 1 a'r enw Cymraeg a restrir yng ngholofn 2 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

## Title and commencement

**1.**—(1) The title of this Order is the County of Powys (Electoral Arrangements) Order 2021.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on 1 October 2021.

(3) For all other purposes, this Order comes into force on the ordinary day of election of councillors in 2022(**1**).

## Interpretation

**2.** In this Order—

"electoral ward" ("*ward etholiadol*") means any area for which members are elected to Powys County Council;

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(**2**);

any reference to a map means one of the 2 maps marked "Map of the County of Powys (Electoral Arrangements) Order 2021" deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations, labelled "1" and "2", and a reference to a numbered map is a reference to the map that bears that number;

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature;

words and expressions used in this Order have the same meaning as they have in Part 3 of the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013, except so far as a contrary intention appears.

## Electoral arrangements for the County of Powys

**3.**—(1) The electoral wards of the County of Powys, as they exist immediately before the ordinary day of election of councillors in 2022, are abolished.

(2) The County of Powys is divided into 60 electoral wards each bearing the English language name listed in column 1 and the Welsh language name listed in column 2 of the Table in the Schedule to this Order.

---

(**1**) Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1269 (Cy. 220)) yn diwygio adran 26(1) o Ddeddf 1972 i ddarparu y bydd etholiadau cyffredin cynghorwyr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal yn y flwyddyn 2022 yn hytrach na 2021.

(**2**) O.S. 1976/246. Mae adran 74(3) o Ddeddf 2013 yn darparu bod y Rheoliadau yn parhau i gael effaith mewn perthynas â gorchmynion a wnaed o dan Ran 3 o Ddeddf 2013, fel pe bai'r gorchmynion hynny wedi eu gwneud o dan Ran 4 o Ddeddf 1972.

(**1**) The Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) (Wales) Order 2019 (S.I. 2019/1269 (W. 220)) amends section 26(1) of the 1972 Act to provide that the year in which the ordinary elections of councillors of local authorities shall take place is 2022 instead of 2021.

(**2**) S.I. 1976/246. Section 74(3) of the 2013 Act provides that the Regulations continue to have effect in relation to orders made under Part 3 of the 2013 Act, as if those orders were made under Part 4 of the 1972 Act.

(3) Mae pob ward etholiadol yn cynnwys yr ardaloedd a bennir mewn perthynas â'r ward etholiadol honno yng ngholofn 3 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(4) Nifer aelodau'r cyngor sydd i'w hethol dros bob ward etholiadol yw'r nifer a bennir yng ngholofn 4 o'r Tabl yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(5) Mae'r darpariaethau yn y Gorchymyn hwn yn cymryd blaenoriaeth dros unrhyw ddarpariaeth wrthdrawiadol mewn unrhyw offeryn statudol blaenorol a wnaed o dan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**1**).

**Cymuned y Trallwng: newidiadau i wardiau cymunedol**

**4.** Yng nghymuned y Trallwng—

(a) mae'r rhan o ward Llanerchyddol a ddangosir â llinellau ar Fap 1 wedi ei throsglwyddo i ward y Castell;

(b) mae'r rhan o ward Gungrog a ddangosir â chroeslinellau ar Fap 1 wedi ei throsglwyddo i ward y Castell;

(c) mae'r rhan o ward Gungrog a ddangosir â llinellau ar Fap 2 wedi ei throsglwyddo i ward Llanerchyddol.

**Cymuned y Trallwng: newidiadau canlyniadol i drefniadau etholiadol**

**5.** Yng nghymuned y Trallwng—

(a) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward y Castell yw 5;

(b) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Gungrog yw 5;

(c) nifer yr aelodau sydd i'w hethol dros ward Llanerchyddol yw 5.

(3) Each electoral ward comprises the areas specified in relation to that electoral ward in column 3 of the Table in the Schedule to this Order.

(4) The number of members of the council to be elected for each electoral ward is the number specified in column 4 of the Table in the Schedule to this Order.

(5) The provisions in this Order take precedence over any conflicting provision in any previous statutory instrument made under section 58(2) of the Local Government Act 1972(**1**).

**The community of Welshpool: changes to community wards**

**4.** In the community of Welshpool—

(a) the part of the Llanerchyddol ward shown hatched on Map 1 is transferred to the Castle ward;

(b) the part of the Gungrog ward shown cross-hatched on Map 1 is transferred to the Castle ward;

(c) the part of the Gungrog ward shown hatched on Map 2 is transferred to the Llanerchyddol ward.

**The community of Welshpool: consequential changes to electoral arrangements**

**5.** In the community of Welshpool—

(a) the number of members to be elected for the Castle ward is 5;

(b) the number of members to be elected for the Gungrog ward is 5;

(c) the number of members to be elected for the Llanerchyddol ward is 5.

*Rebecca Evans*

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
22 Medi 2021

Minister for Finance and Local Government, one of the Welsh Ministers
22 September 2021

(**1**) 1972 p. 70; diddymwyd adran 58 o Ddeddf 1972 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau arbed a bennir yn adran 74 o Ddeddf 2013.

(**1**) 1972 c. 70; section 58 of the 1972 Act was repealed by section 73(2) of, and Schedule 2 to, the 2013 Act, subject to savings provisions specified in section 74 of the 2013 Act.

# YR ATODLEN

Erthygl 3

## ENWAU AC ARDALOEDD WARDIAU ETHOLIADOL A NIFER AELODAU'R CYNGOR

**Tabl**

| *Colofn (1)* | *Colofn (2)* | *Colofn (3)* | *Colofn (4)* |
|---|---|---|---|
| *Enw Saesneg y ward etholiadol* | *Enw Cymraeg y ward etholiadol* | *Ardal y ward etholiadol* | *Nifer aelodau'r cyngor* |
| Aber-craf and Ystradgynlais | Aber-craf ac Ystradgynlais | Wardiau Aber-craf ac Ystradgynlais o gymuned Ystradgynlais | 2 |
| Banwy, Llanfihangel and Llanwddyn | Banwy, Llanfihangel a Llanwddyn | Cymunedau Banwy, Llanfihangel, Llangynog, Llanwddyn, a Phen-y-bont-fawr | 1 |
| Berriew and Castle Caereinion | Aberriw a Chastell Caereinion | Cymunedau Aberriw a Chastell Caereinion | 1 |
| Brecon East | Dwyrain Aberhonddu | Wardiau Dwyrain Sant Ioan a Santes Fair o gymuned Aberhonddu | 2 |
| Brecon West | Gorllewin Aberhonddu | Wardiau Dewi Sant Fewnol a Gorllewin Sant Ioan o gymuned Aberhonddu | 2 |
| Bronllys and Felin-fach | Bronllys a Felin-fach | Cymunedau Bronllys, Erwyd, a Felin-fach | 1 |
| Builth | Llanfair-ym-Muallt | Cymuned Llanfair-ym-Muallt | 1 |
| Caersws | Caersŵs | Cymunedau Carno a Chaersŵs | 1 |
| Churchstoke | Yr Ystog | Cymuned yr Ystog | 1 |
| Crickhowell with Cwmdu and Tretower | Crucywel gyda Chwm-du a Thretŵr | Wardiau Cwm-du a Thretŵr o gymuned Cwm-du a'r Cylch, a chymunedau Crucywel a Dyffryn Grwyne | 2 |
| Cwm-twrch | Cwm-twrch | Ward Cwm-twrch o gymuned Ystradgynlais | 1 |
| Disserth and Trecoed with Newbridge | Diserth a Thre-coed gyda'r Bontnewydd-ar-Wy | Ward y Bontnewydd-ar-Wy o gymuned Llanllŷr, a chymuned Diserth a Thre-coed | 1 |
| Dolforwyn | Dolforwyn | Cymunedau Aber-miwl gyda Llandysul, a Betws Cedewain | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Forden and Montgomery | Ffordun a Threfaldwyn | Ward Ffordun o gymuned Ffordun gyda Thre'r-llai a Threlystan, a chymuned Trefaldwyn | 1 |
| Glantwymyn | Glantwymyn | Cymunedau Cadfarch a Glantwymyn | 1 |
| Glasbury | Y Clas-ar-Wy | Cymunedau Cleiro a'r Clas-ar-Wy | 1 |
| Guilsfield | Cegidfa | Cymuned Cegidfa | 1 |
| Gwernyfed | Gwernyfed | Cymunedau Gwernyfed a Llanigon | 1 |
| Hay | Y Gelli | Cymuned y Gelli | 1 |
| Ithon Valley | Dyffryn Ieithon | Cymunedau Llanbadarn Fawr, Llanbadarn Fynydd, Llanbister, Llanddewi Ystradenni a Phen-y-bont | 1 |
| Kerry | Ceri | Wardiau Ceri a Sarn o gymuned Ceri | 1 |
| Knighton with Beguildy | Trefyclo gyda Bugeildy | Cymunedau Bugeildy a Threfyclo | 2 |
| Llanafanfawr with Garth | Llanafan-fawr gyda Garth | Ward Garth o gymuned Treflys, a chymunedau Cilmeri, Duhonw, Llanafan-fawr, a Llanwrthwl | 1 |
| Llanbrynmair | Llanbrynmair | Cymunedau Llanbrynmair a Threfeglwys | 1 |
| Llandinam with Dolfor | Llandinam gyda Dolfor | Ward Dolfor o gymuned Ceri, a chymunedau Llandinam, a Mochdre gyda Phenystrywaid | 1 |
| Llandrindod North | Gogledd Llandrindod | Ward Gogledd Llandrindod o gymuned Llandrindod | 1 |
| Llandrindod South | De Llandrindod | Wardiau Dwyrain Llandrindod, Gorllewin Llandrindod, De Llandrindod Rhif 1, a De Llandrindod Rhif 2 o gymuned Llandrindod | 2 |
| Llandrinio | Llandrinio | Cymuned Llandrinio | 1 |
| Llandysilio | Llandysilio | Cymuned Llandysilio | 1 |
| Llanelwedd | Llanelwedd | Cymunedau Aberedw, Glasgwm, Llanelwedd a Chastell-paen | 1 |
| Llanfair Caereinion and Llanerfyl | Llanfair Caereinion a Llanerfyl | Cymunedau Llanerfyl a Llanfair Caereinion | 1 |
| Llanfyllin | Llanfyllin | Cymuned Llanfyllin | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llangattock and Llangynidr | Llangatwg a Llangynidr | Cymunedau Llangatwg a Llangynidr | 1 |
| Llangors with Bwlch | Llan-gors gyda Bwlch | Ward Bwlch o gymuned Cwm-du a'r Cylch, a chymuned Llan-gors | 1 |
| Llangunllo with Norton | Llangynllo gyda Norton | Ward Norton o gymuned Llanandras, a chymunedau Llanfihangel Rhydieithon, Llangynllo, a Hwytyn | 1 |
| Llangyniew and Meifod | Llangynyw a Meifod | Cymunedau Llangynyw a Meifod | 1 |
| Llanidloes | Llanidloes | Cymunedau Llangurig, Llanidloes Allanol, a Llanidloes | 2 |
| Llanrhaeadr-ym-Mochnant and Llansilin | Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llansilin | Cymunedau Llangedwyn, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, a Llansilin | 1 |
| Llansantffraid | Llansanffraid | Cymuned Llansanffraid | 1 |
| Llanwrtyd Wells | Llanwrtyd | Ward Beulah o gymuned Treflys, a chymunedau Llangamarch a Llanwrtyd | 1 |
| Llanyre with Nantmel | Llanllŷr gyda Nantmel | Ward Llanfihangel Helygen a Llanllŷr o gymuned Llanllŷr, a chymunedau Abaty Cwm-hir, Nantmel, a Saint Harmon | 1 |
| Machynlleth | Machynlleth | Cymuned Machynlleth | 1 |
| Maescar and Llywel | Maes-car a Llywel | Cymunedau Crai, Llywel, a Maes-car | 1 |
| Newtown Central and South | Canol a De'r Drenewydd | Wardiau Canol a De'r Drenewydd o dref y Drenewydd a Llanllwchaearn | 2 |
| Newtown East | Dwyrain y Drenewydd | Ward Dwyrain y Drenewydd o dref y Drenewydd a Llanllwchaearn | 1 |
| Newtown North | Gogledd y Drenewydd | Ward Gogledd Llanllwchaearn o dref y Drenewydd a Llanllwchaearn | 1 |
| Newtown West | Gorllewin y Drenewydd | Ward Gorllewin Llanllwchaearn o dref y Drenewydd a Llanllwchaearn | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Old Radnor | Pencraig | Cymunedau Llanfair Llythynwg, Maesyfed a Phencraig | 1 |
| Presteigne | Llanandras | Ward Tref Llanandras o gymuned Llanandras | 1 |
| Rhayader | Rhaeadr Gwy | Cymuned Rhaeadr Gwy | 1 |
| Rhiwcynon | Rhiwcynon | Cymunedau Aberhafesb, Dwyriw, Manafon, a Thregynon | 1 |
| Talgarth | Talgarth | Cymuned Talgarth | 1 |
| Talybont-on-Usk | Tal-y-bont ar Wysg | Cymunedau Glyn Tarell, Llanfrynach, a Thal-y-bont ar Wysg | 1 |
| Tawe Uchaf | Tawe Uchaf | Cymunedau Ystradfellte a Thawe Uchaf | 1 |
| Trelystan and Trewern | Trelystan a Thre-wern | Ward Trelystan o gymuned Ffordun gyda Thre'r-llai a Threlystan, a chymuned Tre-wern | 1 |
| Welshpool Castle | Y Trallwng Castell | Ward y Castell o gymuned y Trallwng | 1 |
| Welshpool Gungrog | Y Trallwng Gungrog | Ward Gungrog o gymuned y Trallwng | 1 |
| Welshpool Llanerchyddol | Y Trallwng Llanerchyddol | Ward Llanerchyddol o gymuned y Trallwng | 1 |
| Ynyscedwyn | Ynysgedwyn | Ward Ynysgedwyn o gymuned Ystradgynlais | 1 |
| Yscir with Honddu Isaf and Llanddew | Ysgir gyda Honddu Isaf a Llan-ddew | Cymunedau Honddu Isaf, Llan-ddew, Merthyr Cynog, Trallong, ac Ysgir | 1 |

©Ⓟ Hawlfraint y Goron 2021

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

# SCHEDULE

Article 3

## NAMES AND AREAS OF ELECTORAL WARDS AND NUMBER OF MEMBERS OF THE COUNCIL

**Table**

| *Column (1)* | *Column (2)* | *Column (3)* | *Column (4)* |
|---|---|---|---|
| *English language name of electoral ward* | *Welsh language name of electoral ward* | *Area of electoral ward* | *Number of members of the council* |
| Aber-craf and Ystradgynlais | Aber-craf ac Ystradgynlais | The Aber-craf and Ystradgynlais wards of the community of Ystradgynlais | 2 |
| Banwy, Llanfihangel and Llanwddyn | Banwy, Llanfihangel a Llanwddyn | The communities of Banwy, Llanfihangel, Llangynog, Llanwddyn, and Pen-y-bont-Fawr | 1 |
| Berriew and Castle Caereinion | Aberriw a Chastell Caereinion | The communities of Berriew and Castle Caereinion | 1 |
| Brecon East | Dwyrain Aberhonddu | The St. John East and St. Mary wards of the community of Brecon | 2 |
| Brecon West | Gorllewin Aberhonddu | The St. David Within and St. John West wards of the community of Brecon | 2 |
| Bronllys and Felin-fach | Bronllys a Felin-fach | The communities of Bronllys, Erwood, and Felin-fach | 1 |
| Builth | Llanfair-ym-Muallt | The community of Builth | 1 |
| Caersws | Caersŵs | The communities of Carno and Caersws | 1 |
| Churchstoke | Yr Ystog | The community of Churchstoke | 1 |
| Crickhowell with Cwmdu and Tretower | Crucywel gyda Chwm-du a Thretŵr | The Cwmdu and Tretower wards of the community of Cwmdu and District, and the communities of Crickhowell and The Vale of Grwyney | 2 |
| Cwm-twrch | Cwm-twrch | The Cwm-twrch ward of the community of Ystradgynlais | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Disserth and Trecoed with Newbridge | Diserth a Thre-coed gyda'r Bontnewydd-ar-Wy | The Newbridge ward of the community of Llanyre, and the community of Disserth and Trecoed | 1 |
| Dolforwyn | Dolforwyn | The communities of Abermule with Llandyssil, and Bettws Cedewain | 1 |
| Forden and Montgomery | Ffordun a Threfaldwyn | The Forden ward of the community of Forden with Leighton and Trelystan, and the community of Montgomery | 1 |
| Glantwymyn | Glantwymyn | The communities of Cadfarch and Glantwymyn | 1 |
| Glasbury | Y Clas-ar-Wy | The communities of Clyro and Glasbury | 1 |
| Guilsfield | Cegidfa | The community of Guilsfield | 1 |
| Gwernyfed | Gwernyfed | The communities of Gwernyfed and Llanigon | 1 |
| Hay | Y Gelli | The community of Hay | 1 |
| Ithon Valley | Dyffryn Ieithon | The communities of Llanbadarn Fawr, Llanbadarn Fynydd, Llanbister, Llanddewi Ystradenny and Penybont | 1 |
| Kerry | Ceri | The Kerry and Sarn wards of the community of Kerry | 1 |
| Knighton with Beguildy | Trefyclo gyda Bugeildy | The communities of Beguildy and Knighton | 2 |
| Llanafanfawr with Garth | Llanafan-fawr gyda Garth | The Garth ward of the community of Treflys, and the communities of Cilmery, Duhonw, Llanafanfawr, and Llanwrthwl | 1 |
| Llanbrynmair | Llanbrynmair | The communities of Llanbrynmair and Trefeglwys | 1 |
| Llandinam with Dolfor | Llandinam gyda Dolfor | The Dolfor ward of the community of Kerry, and the communities of Llandinam, and Mochdre with Penstrowed | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llandrindod North | Gogledd Llandrindod | The Llandrindod Wells North ward of the community of Llandrindod Wells | 1 |
| Llandrindod South | De Llandrindod | The Llandrindod Wells East, Llandrindod Wells West, Llandrindod Wells South No.1, and the Llandrindod Wells South No.2 wards of the community of Llandrindod Wells | 2 |
| Llandrinio | Llandrinio | The community of Llandrinio | 1 |
| Llandysilio | Llandysilio | The community of Llandysilio | 1 |
| Llanelwedd | Llanelwedd | The communities of Aberedw, Glascwm, Llanelwedd and Painscastle | 1 |
| Llanfair Caereinion and Llanerfyl | Llanfair Caereinion a Llanerfyl | The communities of Llanerfyl and Llanfair Caereinion | 1 |
| Llanfyllin | Llanfyllin | The community of Llanfyllin | 1 |
| Llangattock and Llangynidr | Llangatwg a Llangynidr | The communities of Llangattock and Llangynidr | 1 |
| Llangors with Bwlch | Llan-gors gyda Bwlch | The Bwlch ward of the community of Cwmdu and District, and the community of Llangors | 1 |
| Llangunllo with Norton | Llangynllo gyda Norton | The Norton ward of the community of Presteigne, and the communities of Llanfihangel Rhydithon, Llangunllo, and Whitton | 1 |
| Llangyniew and Meifod | Llangynyw a Meifod | The communities of Llangyniew and Meifod | 1 |
| Llanidloes | Llanidloes | The communities of Llangurig, Llanidloes Without, and Llanidloes | 2 |
| Llanrhaeadr-ym-Mochnant and Llansilin | Llanrhaeadr-ym-Mochnant a Llansilin | The communities of Llangedwyn, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, and Llansilin | 1 |
| Llansantffraid | Llansanffraid | The community of Llansantffraid | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Llanwrtyd Wells | Llanwrtyd | The Beulah ward of the community of Treflys, and the communities of Llangamarch and Llanwrtyd Wells | 1 |
| Llanyre with Nantmel | Llanllŷr gyda Nantmel | The Llanfihangel Helygen and Llanyre ward of the community of Llanyre, and the communities of Abbey Cwmhir, Nantmel, and St. Harmon | 1 |
| Machynlleth | Machynlleth | The community of Machynlleth | 1 |
| Maescar and Llywel | Maes-car a Llywel | The communities of Cray, Llywel, and Maescar | 1 |
| Newtown Central and South | Canol a De'r Drenewydd | The Newtown Central and Newtown South wards of the town of Newtown and Llanllwchaiarn | 2 |
| Newtown East | Dwyrain y Drenewydd | The Newtown East ward of the town of Newtown and Llanllwchaiarn | 1 |
| Newtown North | Gogledd y Drenewydd | The Llanllwchaiarn North ward of the town of Newtown and Llanllwchaiarn | 1 |
| Newtown West | Gorllewin y Drenewydd | The Llanllwchaiarn West ward of the town of Newtown and Llanllwchaiarn | 1 |
| Old Radnor | Pencraig | The communities of Gladestry, New Radnor, and Old Radnor | 1 |
| Presteigne | Llanandras | The Presteigne Town ward of the community of Presteigne | 1 |
| Rhayader | Rhaeadr Gwy | The community of Rhayader | 1 |
| Rhiwcynon | Rhiwcynon | The communities of Aberhafesp, Dwyriw, Manafon, and Tregynon | 1 |
| Talgarth | Talgarth | The community of Talgarth | 1 |
| Talybont-on-Usk | Tal-y-bont ar Wysg | The communities of Glyn-Tarell, Llanfrynach, and Talybont-on-Usk | 1 |
| Tawe Uchaf | Tawe Uchaf | The communities of Ystradfellte and Tawe-Uchaf | 1 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trelystan and Trewern | Trelystan a Threwern | The Trelystan ward of the community of Forden with Leighton and Trelystan, and the community of Trewern | 1 |
| Welshpool Castle | Y Trallwng Castell | The Castle ward of the community of Welshpool | 1 |
| Welshpool Gungrog | Y Trallwng Gungrog | The Gungrog ward of the community of Welshpool | 1 |
| Welshpool Llanerchyddol | Y Trallwng Llanerchyddol | The Llanerchyddol ward of the community of Welshpool | 1 |
| Ynyscedwyn | Ynysgedwyn | The Ynyscedwyn ward of the community of Ystradgynlais | 1 |
| Yscir with Honddu Isaf and Llanddew | Ysgir gyda Honddu Isaf a Llan-ddew | The communities of Honddu Isaf, Llanddew, Merthyr Cynog, Trallong, and Yscir | 1 |

© Crown copyright 2021

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39120-6

£6.90

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2021/1081